# SL(5)783 - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau 2020”). Diben y Rheoliadau hyn yw pennu estyniad i'r amrywiad dros dro cyfredol i'r cyfraddau a'r bandiau Treth Trafodiadau Tir y darperir ar eu cyfer yn Rheoliadau 2020, a fydd yn gymwys wrth brynu rhai trafodiadau eiddo preswyl. Mae'r estyniad hwn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2021 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2021, gan ddarparu cyfnod newid dros dro parhaus rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021, gyda'r cyfraddau a'r bandiau yn dychwelyd i’r rheini a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020, ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau a'r bandiau fel yr oeddent yn gymwys cyn 27 Gorffennaf 2020 (pan ddaeth y cyfraddau dros dro i rym o dan Reoliadau 2020) a'r cyfraddau dros dro a fydd bellach yn cael eu hymestyn gan y rheoliadau hyn tan 30 Mehefin 2021.

| ***Ystyriaeth berthnasol*** | ***Cyfradd ganrannol y dreth (gosodwyd gan Reoliadau 2018)*** | ***Cyfraddau dros dro Gosodwyd gan Reoliadau 2020 a'u hymestyn gan Reoliadau 2021*** |
|---|---|---|
| Nid mwy na £180,000 | 0 y cant | 0 y cant |
| Mwy na £180,000 ond dim mwy na £250,000 | 3.5 y cant | |
| Mwy na £250,000 ond dim mwy na £400,000 | 5 y cant | Dim newid |
| Mwy na £400,000 ond dim mwy na £750,000 | 7.5 y cant | Dim newid |
| Mwy na £750,000 ond dim mwy na £1,500,000 | 10 y cant | Dim newid |
| Mwy na £1,500,000 | 12 y cant | Dim newid |

Yn ei llythyr dyddiedig 3 Mawrth 2021 at y Llywydd, nododd y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd ei bwriad i gynnal dadl ynglŷn a’r rheoliadau hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mawrth 2021.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn Gadarnhaol Dros Dro

Mae'r offeryn hwn yn cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y weithdrefn gadarnhaol dros dro a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Gwneir y Rheoliadau hyn felly heb i ddrafft gael ei osod gerbron – a'i gymeradwyo gan – y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith. Rhaid i'r Senedd bleidleisio i gymeradwyo'r Rheoliadau erbyn 8 Mai 2021 (oherwydd y toriad ac etholiadau'r Senedd).

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "Mae'r gostyngiad hwn yn y dreth wedi'i dargedu er mwyn cefnogi trethdalwyr sy'n talu prif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir (yn fras, y rhai sy'n prynu eu cartref) ac sydd efallai angen cymorth ychwanegol wrth iddynt benderfynu prynu eu cartref o ganlyniad i'r ansicrwydd tra'r ydym yn symud o frig y pandemig a thuag at ein hadferiad economaidd." Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i drafodion eiddo preswyl yn dychwelyd i'r rheini a oedd mewn grym cyn 27 Gorffennaf 2020 ar 1 Gorffennaf 2021.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio bandiau treth a chyfraddau treth canrannol ar gyfer trafodiadau penodol sy'n ddarostyngedig i dreth trafodiadau tir a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Mawrth 2021**